

national
wool
museum
amgueddfa
wlân
cymru



uwch

gweithgareddau 1-4

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government

rôl merched yn y diwydiant gwlân

tiwtor

Nod: Darllen hanes merched yn y diwydiant gwlân a gwneud yr ymarferion iaith wedi eu seilio ar y darn. Wedyn, gwrando ar lais Tywi Jones a thrafod ei sylwadau a'i dafodiaith.

Camau:

1. Darllen a deall Taflen 1.
2. Gwneud yr ymarferion ar Daflen 2.
3. Mynd i'r adran Atgofion Hanes Diwydiannol ar lawr cyntaf y Felin Ogleddol i wrando ar lais Tywi Jones.
4. Trafod cynnwys ei sgwrs, gan ddilyn Taflen 3.



rôl merched yn y diwydiant gwlân

dysgwr taflen 1

Roedd merched yn bwysig iawn yn natblygiad y diwydiant gwlân o'i ddechrau. Pan oedd y diwydiant wedi ei leoli yn y cartref, merched oedd yn gyfrifol am gribo'r gwlân a'i nyddu, a nhw hefyd oedd yn trin y gwyddiau llaw. Byddai'r merched tlotaf yn cerdded ar hyd llwybrau'r wlad yn casglu gwlân oddi ar y perthi a'r llwyni. 'Gwlana' oedd yr enw ar yr hen arfer yma. Yn y gaeaf, yn enwedig, byddai grwpiau o wragedd yn cwrdd yn nhai ei gilydd i gymdeithasu a gwau hosanau. Mae un hen bennill yn cofnodi hanes merched ardal Tregaron:

Mae'n bwrw glaw allan
Mae'n hindda'n y tŷ
Mae merched Tregaron
Yn nyddu gwlân du.

Pan symudodd y gwaith o'r aelwyd i'r melinau gwlân, gwŷr yn bennaf oedd yn gyfrifol am drin y peiriannau, ond yn ôl Cyfrifiad 1891 roedd nifer o wragedd o blwyfi Llangeler a Phenboyr yn gweithio yn y diwydiant gwlân. Yn wir, erbyn dechrau'r ganrif ddiwethaf roedd merched yn sefyll ochr yn ochr â'r dynion yn streiciau 1908 a 1911.

Daeth tro ar fyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gan fod y Llywodraeth yn pwysu ar berchnogion ffatrioedd i gyflogi mwy o wragedd er mwyn rhyddhau'r gwŷr i ymladd yn y rhyfel. Serch hynny, disgwyliid iddynt roi'r gorau i'w swyddi pan ddychwelai'r dynion o faes y gad. Fodd bynnag, o'r cyfnod hwnnw ymlaen newidiodd y drefn a gwelwyd cynnydd yn nifer y merched oedd yn gweithio yn y diwydiant. Yn ddiethriad bron, merched yn unig a weithiai yn yr ystafelloedd gwnïo ond, fel arfer, dynion oedd y gwehyddion.

Erbyn 1947 merched oedd hanner gweithwyr Melin Cambrian, ond hyd yn oed yn 1954 roedd eu cyflogau dipyn yn is ar gyfartaledd na chyflogau eu gwŷr – £3.9.4 yr wythnos o'i gymharu â £6. Er gwaethaf hynny, dwy Gymraes, sef Mary Quant a Laura Ashley, oedd yn bennaf gyfrifol am yr adfywiad yn niwydiant gwlân Cymru yn ail hanner yr ugeinfed ganrif.

uwch 1

rôl merched yn y diwydiant gwlân

dysgwr taflen 2

1. Darllenwch y brawddegau isod a nodwch a ydynt yn wir (✓) neu yn anwir (X).

Dynion yn bennaf oedd yn nyddu yn y cartref.	()
Merched tlawd, fel arfer, fyddai'n mynd i wlana.	()
Roedd llawer o ferched yn trin peiriannau yn y melinau.	()
Roedd merched yn cefnogi streicwyr 1908 a 1911.	()
Newidiodd amgylchiadau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.	()
Gweithiai gwŷr, yn ogystal â gwragedd, yn yr ystafell wnïo.	()
Erbyn 1947 roedd mwy o wragedd nag o ddynion yn gweithio yn Ffatri Cambrian.	()
Roedd cyflogau'r merched yn is na rhai'r dynion.	()

2. Esboniwch yn Gymraeg ystyr y canlynol:

nyddu
gwłana
hindda
streic
gwehydd
cyflog
adfywiad
pwyso ar

3. Parwch yr ymadroddion/geiriau yn y ddwy golofn. Pa rai sy'n perthyn i'w gilydd?

trin	y rhyfel
yn enwedig	newidiodd pethau
yn bennaf	ceisio perswadio
daeth tro ar fyd	yn arbennig
pwyso ar	trafod, defnyddio
rhoi'r gorau i	yn fwyaf
maes y gad	serch hynny
er gwaethaf	hepgor

rôl merched yn y diwydiant gwlân

dysgwr taflen 3

Ewch i adran Atgofion Hanes Diwydiannol a gwrandewch ar Tywi Jones.
Dewiswch yr ateb cywir isod.

Pwy oedd yn helpu'r dynion?

- a) yr Undeb b) y perchnogion c) y merched

Roedd y merched yn ennill

- a) cymaint â'r dynion b) mwy na'r dynion c) llai na'r dynion

Roedd dynion yn ennill tua

- a) £12 b) £9 c) £4 yr wythnos.

Roedd y perchnogion

- a) wedi rhoi codiad i'r merched yn syth b) wedi dadlau'n gryf yn erbyn
c) wedi rhoi £2 o godiad i'r merched.

Roedd y dynion am i'r merched gael codiad cyflog o

- a) 60 ceiniog b) chweugain c) £1.

Roedd y dynion yn meddwl bod y merched

- a) yn bwysig i'r ffatri b) ddim yn haeddu mwy o arian c) yn ddiog.

Yn y diwedd

- a) chafodd y merched ddim b) cafodd y merched chweugain o godiad
c) cafodd y merched fwy o godiad na'r dynion.



uwch 1

rôl merched yn y diwydiant gwlân

dysgwr taflen 4

Dyma drawsgrifiad o sylwadau Tywi Jones. Gwrandewch ar y recordiad eto gan ddilyn y trawsgrifiad:

“Do’dd dim *piece rate* i’ **ga’l** i’r merched na **’m byd**. Buon ni’n **wmladd** yn galed gyda’r *Union* a **gelon ni** yn y diwedd. Pan o’dd cyflog yn dod i ni fydden nhw’n rhoi arian bach a wedyn gelon ni 2½%. Wel, o’n ni’n ca’l, **wedwch chi**, celon ni lan o’r diwedd i **obeutu** £9 y week, rwy’n credu. Nawr o’n ni’n ca’l 2½% o £9, yntefe? O’dd y merched, **chwel’**, £4 odd y week **rôn nhw’n** ca’l. Wel 2½% – ô’n nhw’n colli bob blwyddyn. O’dd y merched yn baco nôl a wedon ni y flwyddyn hyn, ontefe, os o’n ni’n mynd i ga’l wheugain o godiad – neu 50p o godiad – bod ni’n **mo’yn** i’r merched ga’l £1, iddyn nhw gaino bach nôl. Jiw, bu tipyn o *row* ‘na; a wedon ni bod ni’n sefyll – o’n ni’n mo’yn i’r merched... . O’n ni’n dependo’n hollol ar y merched. Pe bai’r merched yn pallu ‘da ni, fyddai ddim **yn** eisiau ni ‘ma. Ac yn wir, da’th i ben. **Gath** y merched y bunt a gelon ni – **sain gw’bod**, gelon ni hanner – gelon ni wheugain neu mymryn llai o achos ‘ny.

a) Pa ffurfiau tafodieithol (mewn print trwm) sy’n cyfateb i’r canlynol:

cael
cafodd
cawson ni
chi’n gweld
dim byd
dw i ddim yn gwybod
dywedwch chi
ein
mofyn / eisiau
oddeutu / tua
roedden nhw
ymladd

b) Pa sylwadau sydd gennych am y defnydd o ffurfiau Saesneg?

uwch 1

rôl merched yn y diwydiant gwlân

dysgwr taflen 4

Yn eich barn chi:

Ydych chi'n meddwl bod merched wedi chwarae rhan bwysig yn hanes Cymru?
Enwch dair merch a gyfrannodd at fywyd y genedl a nodwch eu cyfraniad.

Ydy dynion a merched yn gyfartal erbyn hyn?
Rhestrwch agweddau ar fywyd lle mae cyfartaledd a meysydd eraill lle mae
dynion a merched yn cael eu trin yn wahanol.

Ydych chi, neu rywun yn eich teulu neu ffrindiau, yn gwnïo neu yn gwau? Yn eich
barn chi, ydyn ni'n colli llawer o sgiliau ymarferol yn ein hoes fodern?

hanes Melin Cambrian

tiwtor

Nod: Olrhain hanes Melin Cambrian rhwng 1915 a 1984 trwy ymgynghori â'r paneli a leolir yn y Felin Ogleddol ar y llawr isaf.

Camau

1. Rhannu'r dysgwyr yn ddau grŵp, A a B.
2. Grŵp A i gael y daflen ar gyfer 1915, 1921 a 1965; Grŵp B i ymdrin â 1919, 1951 a 1984.
3. Pawb i ymgynnull i drosglwyddo ar lafar hanes y ddau gyfnod i'w gilydd am yn ail er mwyn cael y stori gyflawn.
4. Ymdrin â'r eirfa newydd a'r pynciau trafod a nodir.



hanes Melin Cambrian

dysgwr taflen A

Dyma daflen 1915, 1921 a 1965. Darllenwch y posteri priodol a llenwch y bylchau.

1915

Yn ôl adroddiad papur newydd yn 1915 roedd _____ o bobl yn gweithio yn Ffatri Cambrian. Y rheolwr oedd David _____, gŵr roedd ganddo obsesiwn am _____. Roedd y ffatri ar y pryd yn helpu'r wlad trwy gynhyrchu _____. Roedd y Swyddfa Ryfel wedi dewis gwlanen Cymru am ei bod yn _____ ac yn _____.

1921


Llysenw David Lewis oedd "_____" ac yn 1921 fe ymddeolodd, gan ei fod wedi cyrraedd _____ oed. Perchennog newydd y ffatri oedd _____. Ar y pryd, roedd _____ yn ffasiynol.

1965

Yn 1965, gwerthodd _____ y ffatri. Roedd Cwmni Evans Bevan Cyf. wedi bod yn berchen ar y ffatri am _____ o flynyddoedd. Roedd gofid yn yr ardal y byddai _____ o bobl yn colli eu swyddi. Yn ffodus, prynodd Cwmni _____ Felin Cambrian a'r rheolwr newydd oedd _____.

Pynciau trafod

1. Sôn wrth eich tiwtor a'ch gilydd am unrhyw eiriau newydd y daethoch chi ar eu traws.
2. Oedd y Rhyfel Mawr (1914-18) yn help i'r ffatri?
3. Pam, yn eich barn chi, roedd cymaint o danau ym melinau gwlan ardal Dre-fach Felindre?
4. Sut roedd teulu'r Lewisiaid wedi helpu'r ardal?
5. Yn eich barn chi, oes dyfodol gan y diwydiant gwlan yng Nghymru?



hanes Melin Cambrian

dysgwr taflen B

Dyma daflen 1919, 1951 a 1984. Darllenwch y posteri priodol a llenwch y bylchau.

1919

Yn 1919, digwyddodd _____ mawr yn y ffatri a gwnaed _____ o ddifrod. Bwriad David Lewis, fodd bynnag, oedd _____ 'r ffatri. Ar y pryd roedd y cwmnïau yswiriant yn amau bod rhai o'r tanau wedi eu cynnau'n _____.

1951

Erbyn 1951, Cwmni _____ oedd biau Ffatri'r Cambrian. Y rheolwr oedd _____. Roedd pawb yn disgwyl y byddai'r felin yn cau _____ ond dau o'r cwmnïau enwog oedd yn gwerthu cynnyrch y felin oedd _____ a _____.

1984

Yn 1984, gwerthwyd Ffatri'r Cambrian unwaith yn rhagor gan _____ ac fe'i prynwyd gan _____. Erbyn hyn, roedd Melin Teifi, yr arferai ei pherchen weithio yn _____, yn rhan o'r campws. Doedd Cynhyrchwyr Gwlân Cymru ddim yn _____ o gwbl gan eu bod yn teimlo bod y sefydliad newydd yn cael _____.

Pynciau trafod

1. Sôn wrth eich tiwtor a'ch gilydd am unrhyw eiriau newydd y daethoch chi ar eu traws.
2. Oedd y Rhyfel Mawr (1914-18) yn help i'r ffatri?
3. Pam, yn eich barn chi, roedd cymaint o danau ym melinau gwlân ardal Dre-fach Felindre?
4. Sut roedd teulu'r Lewisiaid wedi helpu'r ardal?
5. Yn eich barn chi, oes gan y diwydiant gwlân ddyfodol yng Nghymru?



Dre-fach Felindre a'r diwydiant gwlân

tiwtor

Nod: Trafod pwysigrwydd y diwydiant gwlân i'r ardal a'r effaith a gafodd ar y pentref.

Camau

1. Darllen a deall Taflen 1.
2. Gwneud yr ymarferion ar Daflen 2.
3. Mynd i'r adran Atgofion Hanes Diwydiannol ar lawr cyntaf y Felin Ogleddol i wrando ar lais Tywi Jones.
4. Trafod cynnwys ei sgwrs, gan ddilyn Taflen 3.



uwch 3

Dre-fach Felindre a'r diwydiant gwlân

dysgwr taflen 1

Yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg tyfodd pentrefi Dyffryn Teifi yn ganolfannau cynhyrchu gwlanen pwysig. Ar y pryd, roedd llawer o drigolion y pentref yn gweithio yn y diwydiant gwlân, naill ai yn y melinau lleol neu yn nyddu yn eu cartrefi eu hunain. Erbyn 1900, yn ôl un hanesydd lleol, prin bod lle ar ôl ar lannau'r afonydd i godi'r un ffatri neu felin arall.

Roedd llawer o resymau pam y datblygodd y diwydiant gwlân yn yr ardal hon. I ddechrau, roedd yma ddigon o ddŵr yn Afon Teifi a'r nentydd a redai iddi i yrru'r peiriannau ac i olchi'r gwlân. Hefyd, roedd llawer o ffermydd defaid yn y cyffiniau a gyda dyfodiad y rheilffordd roedd yn hawdd anfon cynnyrch y melinau i ardaloedd diwydiannol cyfagos de Cymru. Yn ogystal, roedd hen draddodiad o nyddu a gwehyddu yn nghartrefi'r cylch ac, o ganlyniad, roedd yma weithlu oedd yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol. Yn wir, yn 1871 roedd 104 o wehyddion arbenigol yn gweithio ar yr aelwyd yn ardal Dre-fach Felindre.

Erbyn 1900, daeth tro ar fyd gan fod y mwyafrif o'r bobl hyn yn gweithio fel gwehyddion mewn ffatrioedd a'r gwyddiau llaw a'r dröell law yn perthyn i'r oes a fu. Rhwng 1880 a 1920 ffynnodd y diwydiant a gwnaeth nifer o berchnogion melinau'r pentref eu ffortiwn, er taw digon isel oedd y cyflogau a dderbyniai'r gweithwyr cyffredin a'u plant.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf bu'r diwydiant gwlân yn ardal Dre-fach Felindre yn llewyrchus iawn, wrth i'r melinau gynhyrchu lifrai i'r fyddin. Fodd bynnag, dirywiodd y sefyllfa'n gyflym erbyn y dauddegau. Collwyd marchnad bwysig y cymoedd diwydiannol yn sgil streic y glowyr yn 1921 ac, ar ben hynny, methodd y perchnogion â moderneiddio eu cynnyrch a'u dulliau cynhyrchu i gwrdd â gofynion oes newydd. Y diwedd oedd i lawer o ffatrioedd orfod cau ac erbyn heddiw mae'r dyrnaid o felinau sy'n weddill yn dibynnu'n drwm ar werthu i dwristiaid.

uwch 3

Dre-fach Felindre a'r diwydiant gwlân

dysgwr taflen 2

1. Edrychwch ar y darn darllen ar Taflen 1 a nodwch ffurfiau lluosog yr enwau hyn:

pentref
canolfan
cartref
melin
peiriant
nant
fferm
gwehydd
gwŷdd
perchennog
glöwr
ffatri.

2. Pa ymadroddion yn y golofn ar y dde sy'n ddiffiniad o'r geiriau ar y chwith:

trigolion	gwneud brethyn
nyddu	dillad swyddogol
nant	pobl sy'n byw mewn ardal
gweithlu	yn llwyddo
o ganlyniad i	gwneud edafedd
gwehyddu	afon fach
tröell	yn sgil
cyflog	corff o weithwyr
llewyrchus	offeryn a ddefnyddir i nyddu
lifrai	arian a delir am weithio

3. Lluniwch frawddegau yn cynnwys yr ymadroddion hyn a'u dweud ar lafar wrth eich tiwtor:

gan gynnwys	yn ogystal
ar y pryd	o ganlyniad
naill ai ... neu	ar yr aelwyd
yn ôl	daeth tro ar fyd
i ddechrau	yn sgil
yn y cyffiniau	ar ben hynny

Dre-fach Felindre a'r diwydiant gwlân

dysgwr taflen 2

4. Gwir (✓) neu anwir (X)

- Ychydig o drigolion y pentref oedd yn gweithio yn y diwydiant gwlân yn y 19eg ganrif. ()
- Roedd digon o ddŵr ar gael i yrru'r peiriannau. ()
- Roedden nhw'n gwerthu eu cynnyrch yng nghymoedd y de. ()
- Doedd dim traddodiad o nyddu a gwehyddu yn yr ardal. ()
- Erbyn 1900 roedd y rhan fwyaf o'r gwehyddion yn gweithio mewn ffatrioedd. ()
- Doedd y blynnyddoedd 1880-1920 ddim yn rhai llwyddiannus i'r diwydiant. ()
- Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd melinau Dre-fach yn gwneud dillad i'r milwyr. ()
- Roedd y perchnogion yn moderneiddio eu ffatrioedd yn gyson. ()
- Does dim melinau gwlân yn dal i weithio yng Nghymru. ()

5. Trafodwch:

Pam datblygodd y diwydiant gwlân yn ardal Dre-fach Felindre?
Pam dirywiodd y diwydiant gwlân yn yr ugeinfed ganrif?



Dre-fach Felindre a'r diwydiant gwlân

dysgwr taflen 3

1. Gwrandewch ar Tywi Jones yn sôn am bentref Dre-fach Felindre ac atebwch y cwestiynau:

Sawl 'tea room' a siop 'chips' oedd yn y pentre?
Beth oedd y bechgyn yn arfer ei wneud?
Pwy oedd yn cael yr arian?
Lliw pa eitem o ddillad roedd y bois yn ei wybod?

2. Edrychwch ar y trawsgrifiad o'r sgwrs.

Beth yw ystyr y geiriau a'r ymadroddion mewn print trwm?
Pryd mae'r siaradwr yn defnyddio termau Saesneg?

Dyma drawsgrifiad o'i sgwrs:


"Ro'dd y pentre' ma'n **fisi, chmbod**. 'Weda i, un amser wi'n cofio'r pentre bach hyn, nawr te; un, dou, o'dd tri, tri tea room 'ma, dwy chip shop, y sinema **dwyweth** yr wthnos; yr Hall yn mynd a tair snooker table ynddi, concerts yn ca'l ei gadw; ninne fel bechgyn ifinc yn dysgu i ga'l perfformo plays, yntefe, a rhoi'r plays 'ma mla'n a dramâu, te – a erbyn 'Dolig gneud pantomeim, a'r arian wedyn yn mynd, os gwnelen ni gantpant – yn mynd i'r NSPCC. 'Na beth o'n ni'n neud, yntefe. So o'dd y pentre **pry'nny** yn fyw. O'ch chi'n nabod pob un – pob un yn 'nabod chi. Do'dd dim troi rownd, os o'dd y bois yn nabod – gwbod pwy liw o bants 'sa 'da chi fory! – pob un yn **gw'bod**, yntefe. Ro'dd y pentre'n fyw ofnadw."

taith o gwmpas y pentref

dysgwr

Nod: Dilyn llwybr gosod o gwmpas y pentref ac ateb y cwestiynau ar y daflen. Mae pob rhif yn cyfateb i le ar y map.

Taith o Amgylch y Fro



taith o gwmpas y pentref

dysgwr

1. Ewch allan drwy giât yr Amgueddfa. Trowch i'r dde ac i'r dde unwaith eto, a dilynwch lwybr sy'n rhedeg ar hyd ochr yr Amgueddfa. Edrychwch draw at yr Amgueddfa. Mae adeilad yn syth o'ch blaen ac iddo nifer o ffenestri. Dyma hen sied wau Melin Cambrian – adran bwysicaf y felin. Roedd tuag 20 o bobl yn gweithio yno pan oedd yn ei hanterth.

Pam 'dych chi'n meddwl bod eisiau adeilad mor fawr?

Pam, yn eich barn chi, roedd y perchennog wedi gosod gwydr barugog [frosted] ar waelod y ffenestri?

Fasech chi wedi hoffi gweithio yno ai peidio? Pam?

2. Cerddwch ymlaen at y bont ac arhoswch yna. Enw'r bont yw Pont y Glyn.

Rhowch resymau pam roedden nhw'n codi melinau ar lan afonydd.

Ddylen ni fod yn defnyddio dulliau tebyg o gynhyrchu pŵer heddiw? Pam?

3. Ychydig ar ôl croesi'r bont, mae tŷ mawr ar y llethr ar y dde o'r enw Y Glyn.

Pwy 'dych chi'n meddwl oedd yn byw yma? Perchennog neu weithiwr?

Rhowch resymau.

Beth 'dych chi'n ei sylwi am y coed a'r ardd?

Sut 'dych chi'n credu roedd bywyd gweithwyr y ffatri yn wahanol i fywyd perchen y tŷ?

4. Ychydig ymlaen, trowch i'r chwith ac ewch trwy giât. Yn uwch i fyny ar ochr y bryn ar y dde, mae fferm Cryngae. Maen nhw'n dweud bod Dafydd ap Gwilym yn dod yma yn yr hen amser

Gwrandewch ar eich tiwtor a dywedwch:

Pwy oedd Dafydd ap Gwilym?

Pryd roedd e'n byw?

5. Wedi cyrraedd yr heol, trowch ychydig i'r dde. Mae adeilad mawr o'ch blaen. Dyma hen ffatri wlân Cilwendeg.

Disgrifiwch yr adeilad.

taith o gwmpas y pentref

dysgwr

6. Trowch yn ôl i'r chwith a dilynwch yr heol ymlaen heibio i arwydd Pwllmarl ger y byngalos. Trowch i'r chwith eto a dilyn y lôn fferm trwy glos [*farmyard*] fferm Pwllmarl. Ar ôl croesi'r afon, fe welwch chi Ffatri Meiros ar y dde, ar draws y cae.

Sut mae'r ffatri yn edrych yn wahanol i'r ffatrioedd eraill?
Ydych chi'n gallu meddwl am resymau pam mae hi wedi ei hadeiladu fel hyn?
Ceisiwch ddyfalu pam bod rhai yn amau bod y perchnogion yn gweithredu'n anonest?

7. Croeswch y bont nesaf a dilynwch y llwybr i fyny at hen adeilad ffatri wlân Square Hall.

Beth sy'n digwydd yn yr adeilad heddiw?
Pam mae'n adeilad da ar gyfer y defnydd yma?
Pam 'dych chi'n meddwl bod enwau Saesneg ar rai o'r ffatrioedd hyn?

8. Cerddwch ymlaen at yr heol. 'Dych chi nawr yn ôl yn stryd fawr y pentref. Trowch ychydig i'r dde. Mae capel ar y chwith.

Pryd adeiladwyd y capel?
Pam 'dych chi'n meddwl bod rhaid ailadeiladu'r capel yn 1840 ac 1889?
Pam mae rhai capeli mewn pentrefi tebyg yn cau heddiw?

9. Yn nes ymlaen mae tŷ mawr ar y chwith o'r enw 'Meiros Hall'.

Ble 'dych chi wedi gweld yr enw 'Meiros' o'r blaen?
Beth yw prif nodweddion y tŷ?
Pwy 'dych chi'n meddwl oedd yn byw yno?
Beth 'dych chi'n meddwl oedd agwedd y werin at dai o'r fath?

10. Pan ddewch at fforch yn yr heol, trowch i'r chwith ac ewch i fyny'r bryn. Trowch i'r dde gyferbyn â mynwent Bethel ac fe welwch fynwent arall ar y gornel. Ewch i mewn iddi.

Beth oedd enw'r capel oedd yn arfer bod yma?
Pryd adeiladwyd y capel?
Ble mae'r capel nawr?
Ydych chi'n cytuno â symud adeiladau hanesyddol ai peidio? Pam?

uwch 4

taith o gwmpas y pentref

dysgwr

11. Trowch i'r dde allan o'r fynwent. Dilynwch yr heol nes ichi ddod at dŷ o'r enw Dolwion. Gwelwch lôn gul ar y dde yn arwain at ffatri Dolwion a gaeodd yn 1972.

Gwrandewch ar eich tiwtor yn adrodd yr hanes a dywedwch beth yw'r cysylltiad rhwng y ffatri hon ac Unol Daleithiau America?

Ydyn ni'n rhoi digon o sylw i bobl bwysig sy'n dod o Gymru? Rhowch enghreifftiau.

12. Ewch heibio i ffatri Dolwion a dilynwch y llwybr nes ichi gyrraedd yr heol fawr. Trowch i'r dde. Wrth gerdded yn ôl trwy'r pentref, beth sydd wedi ei ysgrifennu ar ffrynt un o'r tai ar y dde?

Pryd, yn eich barn chi, roedd y busnes yma'n ffynnu [*flourish*]?

13. Croeswch y bont dros Afon Esger. Mae ysgol ar y chwith.

Beth yw enw'r ysgol?

Pa fath o ysgol yw hi?

Pa broblemau sy'n wynebu ysgolion pentref heddiw?

14. Wrth ochr yr ysgol fe welwch eglwys a mynwent. Ewch i mewn i'r fynwent.

Beth yw enw'r eglwys?

Yn y fynwent, y tu ôl i'r eglwys, mae tair carreg fedd fawr iawn. Pwy oedd y teuluoedd hyn?

Pa fath o bobl sy'n ddylanwadol yn ein cymdeithas heddiw?



taith o gwmpas y pentref

dysgwr

15. Enw'r sgwâr y tu allan i'r eglwys yw Sgwâr y Giât. Ewch yn ôl i'r pentref, heibio i'r neuadd.

Sut cafodd Sgwâr y Giat ei henw? Holwch rywun.

Pwy ddinistriodd y giât? Holwch am hanes 'y merched'.

Beth yw enw Neuadd y Pentref?

Pa fath o bethau sy'n digwydd yno? Holwch bobl neu edrychwch am bosteri.

Ewch yn syth ymlaen i'r Amgueddfa i gwrdd â'ch tiwtor er mwyn trafod eich atebion.

